WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 660A2013

# Statws yr adroddiad

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman, Phil Pugh Andy Bruce a Julie Owens.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Defnyddiwyd adnoddau'r Comisiynydd yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol | 6 |
| Paratowyd cyfrifon y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol | 6 |
| Cyflawnodd y Comisiynydd ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012-13, ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd i ddod | 8 |
| Mae gan y Comisiynydd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ac ymdrinnir yn briodol â mater sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â lwfansau tâl disgresiwn | 8 |
| Roedd systemau ariannol pwysig y Comisiynydd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad er mwyn llunio cyfrifon perthnasol gywir | 10 |
| Mae gan y Comisiynydd drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | 10 |
| Roedd gan y Comisiynydd drefniadau priodol ar waith yn 2012-13 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 10 |
| Mae trefniadau effeithiol ar waith i reoli pwysau ariannol, a cheir fframwaith i gefnogi plismona cynaliadwy i'r cyhoedd | 11 |
| Mae ymrwymiad cryf i gynnwys y gymuned a datblygu ffyrdd o alluogi dinasyddion i helpu i lywio'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu | 12 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliad ar drefniadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 14 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Comisiynydd yn ystod 2012-13 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 15 |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf | 16 |

# Adroddiad cryno

**1.** Yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, daeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i rym. Cyflwynodd y ddeddfwriaeth hon Gomisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig yn lle awdurdodau'r heddlu o 22 Tachwedd 2012. Creodd y Ddeddf hefyd Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol (yr Adroddiad) hwn i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys (y Comisiynydd) yn crynhoi casgliadau fy archwiliad ar gyfer 2012-13. Mae'n cyflwyno adroddiad ar y materion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar wahân i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys (y Prif Gwnstabl).

**2.** Ceir mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd yr adroddiadau hyn a chytunwyd arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiynydd a'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'w gweld yn Atodiad 3.

**3.** Gwneir nifer o gyfeiriadau yn yr Adroddiad hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Mae'r Cod yn cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

**4.** Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro ar sail elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod. Cyfanswm y ffi archwilio arfaethedig ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel y'u nodir yn Amlinelliad o Archwiliad 2013, oedd £77,459 (ynghyd â TAW). Gallaf gadarnhau y bydd y ffi derfynol yn gyson â'r ffi arfaethedig.

**5.** Rwyf wedi dod i'r casgliad bod adnoddau'r Comisiynydd, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u defnyddio'n gywir ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol yn 2012-13:

- cafodd cyfrifon y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- cyflawnodd y Grŵp ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012-13, ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd i ddod;
- roedd gan y Comisiynydd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
- roedd systemau ariannol pwysig y Comisiynydd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad er mwyn llunio cyfrifon perthnasol gywir.

**6.** Mae gan y Comisiynydd drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol:

- roedd gan y Comisiynydd drefniadau priodol ar waith yn 2012-13 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- mae trefniadau effeithiol ar waith i reoli pwysau ariannol, a cheir fframwaith i gefnogi plismona cynaliadwy i'r cyhoedd; ac
- mae ymrwymiad cryf i gynnwys y gymuned a datblygu ffyrdd o alluogi dinasyddion i helpu i lywio'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu.

**7.** Cytunwyd ar yr Adroddiad hwn gyda'r Comisiynydd a'r Bwrdd Plismona. Caiff yr Adroddiad hefyd ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 10 Rhagfyr 2013.

**8.** Fy nod yw cynnal archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Comisiynydd ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.

John Herniman
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

Dyddiad: 27 Tachwedd 2013

# Adroddiad manwl

## Defnyddiwyd adnoddau'r Comisiynydd yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol

**9.** Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Comisiynydd roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

**10.** Fel archwilydd allanol y Comisiynydd, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn.

### Paratowyd cyfrifon y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**11.** Ers cyflwyno Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel ei gilydd yn gyfrifol am lunio eu datganiadau ariannol unigol eu hunain ar gyfer 2012-13. At hynny, mae'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am lunio datganiadau ariannol cronfa bensiwn yr heddlu a datganiadau ariannol cyfun neu 'grŵp' sy'n ymgorffori datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

**12.** Lluniodd y Comisiynydd ei ddatganiadau ariannol drafft a'u cymeradwyo cyn 30 Medi 2013, yn unol â gofynion Rheoliad Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010.

**13.** Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**14.** Mae'n ofynnol i mi o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Comisiynydd) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.

**15.** Cyflwynais adroddiad ar y materion hyn i'r Comisiynydd a'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2013. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilwyr |
|---|---|
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid. | Cafwyd gennym fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. |
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau a nodwyd ond nas cywirwyd. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad oeddem wedi hysbysu'r Comisiynydd (a'r Awdurdod cyn hynny) amdanynt eisoes. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt o dan safonau archwilio eraill gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |

**16.** Ar 30 Medi 2013, rhoddais fy marn ar gyfrifon y Comisiynydd. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2013 ac o'r incwm a'r gwariant, yr enillion a'r colledion a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Deuthum i'r casgliad hefyd bod cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn rhoi darlun cywir a theg o'r trafodion ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

**17.** Rydym hefyd wedi cwblhau'r archwiliad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a gwnaethom gyflwyno'r ffurflen wedi'i harchwilio i dîm archwilio canolog Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r terfyn amser gofynnol, sef 2013 Medi 2013. Roedd y ffurflen wedi'i llunio'n briodol ac nid oedd unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt.

## Cyflawnodd y Grŵp ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012-13, ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd i ddod

**18.** Roedd gan Awdurdod Heddlu Dyfed Powys (yr Awdurdod) hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw a pharhaodd hyn o dan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn 2012-13. Y gyllideb ar gyfer 2012-13 a gymeradwywyd gan gyn Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ac a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd ar ôl iddo gael ei benodi oedd £95.699 miliwn. Llwyddodd y Grŵp i fantoli ei gyllideb refeniw net o £95,699 miliwn. O fewn y Grŵp, sefyllfa alldro y Comisiynydd oedd tanwariant net o £25,000 a sefyllfa alldro'r Prif Gwnstabl oedd gorwariant o £25,000.

**19.** Llwyddwyd i fantoli cyllideb y Grŵp ar ôl trosglwyddo £4.868 miliwn i gronfeydd wrth gefn o gyllideb y Prif Gwnstabl o gymharu â gostyngiad a gyllidebwyd o £0.911 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn, sef gwahaniaeth o £5.779 miliwn. Trosglwyddwyd tua £5.6 miliwn o'r cyfanswm hwn i gronfeydd Cyfalaf wrth gefn er mwyn cefnogi cynlluniau gwario yn y dyfodol. Tanwariwyd £4.107 miliwn mewn perthynas â chostau gweithredu'r Prif Gwnstabl (e.e. costau Cyflogeion, Safleoedd, Cludiant ac ati).

**20.** Parhaodd balans y gronfa gyffredinol wrth gefn yn sefydlog, sef £4.5 miliwn, sy'n unol â'r targed, a nodwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod.

**21.** Mae'r Comisiynydd yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Pennaeth Rheolaeth Ariannol ar y sefyllfa wirioneddol o ran gwariant o gymharu â'r gyllideb arfaethedig. Fel rhan o'r cynllun lleihau costau, pennwyd targed arbedion o £8.962 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2013-14 a 2017-18, a nodwyd £10.430 miliwn rhwng 2010-11 a 2012-13.

**22.** Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn ystyried effeithiolrwydd y rheolaethau a'r prosesau sydd ar waith i'r Comisiynydd a'i staff fonitro cyllidebau a'r sefyllfa ariannol. Ni nododd ein gwaith unrhyw wendidau sylweddol yn y rheolaethau na'r prosesau cyllidebol a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr yn ystod y flwyddyn.

## Mae gan y Comisiynydd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ac ymdrinir yn briodol â mater cyfreithiol sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â lwfansau tâl disgresiwn

**23.** Yn ei adroddiad blynyddol, daeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, fod gan y Comisiynydd system rheolaeth fewnol gadarn ar y cyfan, er bod gwendidau a all roi rhai o amcanion y system yn y fantol. Barn y gwasanaeth Archwilio Mewnol oedd bod hyn yn rhoi lefel 'Sicrwydd Rhesymol' ar y cyfan o ran bodloni amcanion Heddlu Dyfed-Powys.

**24.** Yn benodol, deuthum i'r casgliadau canlynol:

- mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol ac felly roedd yn bosibl i ni ddibynnu ar ei waith, yn ôl y bwriad;
- cafwyd bod yr amgylchedd rheoli TG yn gyffredinol yn gweithredu'n effeithiol ac mae'r rheolwyr yn cymryd camau i ymateb i welliannau i systemau a rheolaethau a argymhellwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- roedd y trefniadau ar gyfer atal a chanfod achosion perthnasol o dwyll a llygredd yn gweithredu'n effeithiol; ac
- yn gyffredinol, cafwyd bod y trefniadau ar gyfer sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth benodol iddo ymgymryd â thrafodion perthnasol y mae'r Comisiynydd (a'r Awdurdod cyn hynny) yn gwneud hynny, ar waith a'u bod wedi parhau i weithredu'n effeithiol.

**25.** Fodd bynnag, mae mater wedi codi'n ddiweddar ar lefel genedlaethol sy'n codi pryderon am gyfreithlondeb rhai lwfansau dewisol a delir i nifer fach o Brif Swyddogion mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

**26.** Ym mis Mai 2009, cymeradwyodd cyn Awdurdod Heddlu Dyfed Powys 'Bolisi Buddiannau Prif Swyddogion'. Cyflwynwyd y polisi mewn ymgais i ddenu mwy o ddarpar ymgeiswyr ar gyfer penodiadau Prif Swyddogion o fewn yr heddlu ac roedd yn cynnwys manylion 'Pecynnau Adleoli Prif Swyddogion, Cynllun Ceir Prif Swyddogion a Thaliadau Dewisol Eraill'.

**27.** Cymeradwywyd y polisi gan yr Is-Bwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth a benderfynodd y dylid talu lwfans dewisol o 7.5 y cant bob blwyddyn ar y dyddiad y dechreuodd Prif Swyddog Heddlu gyflawni ei ddyletswyddau ac y dylid rhoi Cynllun Gofal Iechyd preifat ar waith ar gyfer Tîm Prif Swyddogion yr Heddlu. Cymeradwyodd yr Awdurdod y polisi yn amodol ar gael rhagor o gyngor cyfreithiol a chyngor ar gyfrifon. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ceisio dod o hyd i'r cyngor a gafwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ond er gwaethaf ymdrechion helaeth, ni ddaethpwyd o hyd i'r cyngor hwn hyd yma.

**28.** Mae gohebiaeth ddiweddar a gafwyd gan yr Heddlu gan Gymdeithas Staff Prif Swyddogion yr Heddlu a sylw yn y wasg genedlaethol mewn perthynas â Lwfansau Dewisol, wedi codi pryderon am gyfreithlondeb taliadau dewisol o'r fath am na chyfeirir atynt o dan ddarpariaethau penodol Rheoliadau'r Heddlu 2003.

**29.** O ganlyniad, mae'r Comisiynydd wedi gofyn am ragor o gyngor cyfreithiol. Ymddengys bod y cyngor hwn yn cadarnhau y gallai'r taliadau dewisol fod yn anghyfreithlon. Ar ôl cael y cyngor hwn, cymerwyd camau ar fyrder i atal unrhyw lwfansau dewisol eraill rhag cael eu gwneud hyd nes yr eglurir y sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Hysbyswyd Prif Swyddogion presennol a blaenorol sydd wedi cael y lwfansau hyn yn ysgrifenedig fod cyfreithlondeb y lwfansau hyn yn cael ei adolygu ac am y posibilrwydd y gellid cymryd camau adferol os cadarnheir wedi hynny fod y lwfansau yn anghyfreithlon. Bwriadwn barhau i adolygu'r mater hwn dros y misoedd nesaf.

### Roedd systemau ariannol pwysig y Comisiynydd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad er mwyn llunio cyfrifon perthnasol gywir

**30.** Roedd fy adolygiad o systemau ariannol y Comisiynydd yn cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig. Lle y bo'n briodol, gwnaethom geisio sicrwydd bod rheolaethau allweddol y systemau pwysig hyn yn gweithredu'n effeithiol, naill ai drwy gynnal profion penodol ar y ffordd y cânt eu gweithredu, neu drwy ddibynnu ar waith y gwasanaeth archwilio mewnol.

**31.** Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig y Comisiynydd i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Mae rhai mân feysydd ar gyfer gwella a drafodwyd gyda'r rheolwyr ac mae camau gweithredu priodol eisoes yn cael eu hystyried a'u cymryd. Rhoddir gwybod i'r Cyd-bwyllgor Archwilio (a'r Pwyllgor Archwilio ac Adnoddau cyn hynny) am bob argymhelliad a wneir gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Allanol, yn ogystal â'r Comisiynydd, sy'n monitro'r camau a gymerir gan reolwyr i fynd i'r afael â'r argymhelliad. Nid oes unrhyw faterion penodol y mae angen i mi dynnu sylw'r Comisiynydd atynt.

## Mae gan y Comisiynydd drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

### Roedd gan y Comisiynydd drefniadau priodol ar waith yn 2012-13 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**32.** Wrth archwilio cyfrifon y Comisiynydd bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau Gwerth am Arian y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 yn Atodiad 1.

**33.** Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol, mae ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd wedi deillio o waith perfformiad ac arolygu a wnaed gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**34.** Y Comisiynydd (a'r Awdurdod cyn hynny) oedd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Comisiynydd yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull gweithredu hwn yn fanwl yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith ac arwyddocâd y bylchau hynny.

35. Ar ôl ethol y Comisiynydd ym mis Tachwedd 2012, mae'r trefniadau a oedd yn gweithredu cyn hynny o dan yr Awdurdod wedi parhau ar lefel weithredol. Ar lefel fonitro ac ar lefel gorfforaethol, cyflwynwyd nifer o drefniadau newydd yn eu lle, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Archwilio, Panel yr Heddlu a Throseddu, a Grŵp y Prif Swyddogion. Dim ond am ran o flwyddyn ariannol 2012-13 y bu'r trefniadau newydd hyn ar waith ac maent wedi parhau i esblygu ar ôl 31 Mawrth 2013 yn dilyn cyflwyno'r Bwrdd Plismona. Mae'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r uwch reolwyr eraill yn adolygu perfformiad y trefniadau ac yn gwneud addasiadau er mwyn eu hatgyfnerthu ymhellach.

36. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd yn cynnwys manylion am y trefniadau amrywiol a fu ar waith yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom adolygu cynnwys y Datganiad gan ddod i'r casgliad ei fod yn gyson â'n gwybodaeth am y sefydliad. Caiff nifer o feysydd datblygu eu nodi yn y Datganiad a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Comisiynydd a'i staff i ymdrin â'r rhain yn y dyfodol.

## Mae trefniadau effeithiol ar waith i reoli pwysau ariannol, a cheir fframwaith i gefnogi plismona cynaliadwy ar gyfer y cyhoedd

37. Roedd ein rhaglen waith wedi'i halinio ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cynnwys casglu tystiolaeth ar y cyd ar ba un a yw rhaglenni arbedion yn cyflawni newidiadau cadarnhaol y gellir eu mesur tuag at wasanaeth heddlu cynaliadwy. Daeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'r casgliad canlynol:

'Mae Heddlu Dyfed-Powys ar y trywydd cywir i gyflawni ei arbedion arfaethedig erbyn mis Mawrth 2015. Mae wedi ymateb yn dda ac wedi gwneud arbedion sylweddol, gan gynnal perfformiad ar yr un pryd - mae nifer yr achosion o droseddu wedi parhau i leihau ac erys boddhad â phlismona yn uchel.'

38. Daeth yr Arolygiaeth i'r casgliad hwn oherwydd:

- Er bod angen i Heddlu Dyfed Powys arbed £13.6 miliwn dros bedair blynedd yr adolygiad o wariant (h.y. Mawrth 2011 – Mawrth 2015), fel cyfran o'i gyllideb gyffredinol (12 y cant), mae'r gofyniad hwn o ran arbedion yn llai na'r ffigur cyfartalog o 17 y cant ledled Cymru a Lloegr.
- Caiff nifer y swyddogion ei lleihau drwy gyfyngu ar ymgyrchoedd recriwtio a chadw swyddi'n wag, ond mae'r gostyngiad yn llai na'r rhan fwyaf o'r heddluoedd eraill. Bydd Heddlu Dyfed Powys ar y cyfan yn diogelu swyddi rheng flaen ac mae'n bwriadu cynyddu nifer y swyddogion cymorth cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r gostyngiadau yn niferoedd staff yr heddlu yn llai na'r rhan fwyaf o'r heddluoedd eraill.
- Yn gyffredinol, mae nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt wedi lleihau yn unol â'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Yn gyffredinol, mae cyfraddau boddhad dioddefwyr yr un fath â heddluoedd eraill.

**39.** Mae adolygiadau a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth yn ategu fy nghasgliadau am drefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol[1].

## Mae ymrwymiad cryf i gynnwys y gymuned a datblygu ffyrdd o alluogi dinasyddion i helpu i lywio'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu

**40.** Nod cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw sicrhau bod yr heddlu yn gadarn ac yn dryloyw. Caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu hethol gan y cyhoedd i sicrhau bod y Prif Gwnstabl a'r Heddlu yn atebol am eu gweithredoedd; gan olygu, mewn gwirionedd, bod yr heddlu yn atebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Felly un o rolau allweddol y Comisiynydd yw cynrychioli cymunedau lleol ac ymgysylltu â hwy er mwyn helpu i ganfod eu blaenoriaethau plismona a'u bodloni. Roedd rhan o'n gwaith eleni yn cynnwys adolygu trefniadau ymgysylltu ac ymgynghori'r Comisiynydd a'r Heddlu. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar nodi pwyntiau dysgu er mwyn i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu hystyried mewn perthynas ag ymgysylltu yn y dyfodol, gan gynnwys rhoi'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar waith a defnyddio'r pecyn adnoddau gwerthuso[2]. Cynhaliwyd y gwaith hwn mewn cydweithrediad â Chyfranogaeth Cymru ac rydym yn cydnabod eu cymorth drwy gydol yr astudiaeth.

**41.** Credaf fod ymrwymiad cryf i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn datblygu ffyrdd o alluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaeth yr heddlu. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau partner ac adlewyrchir hyn yn rhaglen Rhoi'r Cyhoedd yn Gyntaf.
- Mae ymgysylltu yn thema allweddol a ystyrir gan y Bwrdd Plismona yn rheolaidd.
- Mae ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys: cyngorfeydd cyhoeddus, cyfarfodydd a digwyddiadau, cyfryngau lleol, a thrwy'r wefan. Gwelsom hefyd fod swyddfa'r Comisiynydd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddinasyddion a hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu drwy'r cyfrwng hwn.
- Mae'r Comisiynydd yn ymgysylltu'n fewnol, gan wrando ar farn swyddogion a staff yr heddlu, a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wneud newidiadau lle bo angen.
- Mae adborth gan baneli dinasyddion yn helpu i hysbysu'r Comisiynydd a chaiff cylchlythyrau rheolaidd eu llunio.

[1] 'Ymateb Heddlu Gwent i'r her ariannu', Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Gorffennaf 2013
[2] Datblygwyd yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru o dan gyfarwyddyd partneriaeth Cyfranogaeth Cymru ac fe'u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011.

- Defnyddio system ar gyfer cofnodi gwybodaeth o gyngorfeydd cyhoeddus a rhoi adborth i'r Heddlu ac unigolion.
- Rhoi adborth unigol i bawb a ymatebodd i ymgynghoriad y Comisiynydd ar y Cynllun Heddlu a Throseddu.
- Gwerthuso dulliau ymgysylltu ac ymgynghori'r Comisiynydd a bod yn barod i ddysgu o ddulliau a modelau eraill er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol.

**42.** Mae'r Comisiynydd a'i staff wedi ymateb i'r adolygiad hwn mewn modd adeiladol ac wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn rhoi adborth manylach i'r Comisiynydd ar wahân ac yn rhoi enghreifftiau pellach o arfer da lle y bo'n berthnasol.

**43.** Mae'r Comisiynydd a'r Heddlu yn wynebu cyfnod heriol iawn a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd a gwaith gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yn 2013-14. Mantais dull gweithredu cydgysylltiedig rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yw ei fod yn sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn osgoi dyblygu ac yn hyrwyddo rhannu rhwng ein priod sefydliadau. Mae ein dull gweithredu hefyd yn helpu i lywio ein rhaglenni gwaith a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon a bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu hystyried.

# Atodiad 1

## Casgliad ar drefniadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys (y Comisiynydd) yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau, ac i sicrhau trefniadau gwarchod a llywodraethu priodol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol y Comisiynydd, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os oes materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod y Comisiynydd wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2012-13 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.

Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

Ar sail Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2012-13, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol, ac wedi gwneud argymhellion i wella trefniadau'r Comisiynydd. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Adroddiad Archwilio Blynyddol i'r Comisiynydd.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett<br>Archwilydd Penodedig<br>3 Rhagfyr 2013 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF11 9LJ |

# Atodiad 2

## Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Comisiynydd yn ystod 2012-13 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, er mwyn nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, i weithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau unioni lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Comisiynydd? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 3

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Amlinelliad o Archwiliad 2013 | Mawrth 2013 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Medi 2013 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | Tachwedd 2013 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk